Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

13 February 2006

Dear Colleague

**The Variable Tuition Fee Régime in Wales: Consultation on Fee Plan Guidance**

The Higher Education Bill received Royal Assent in July 2004, transferring responsibility for higher and further education support and the tuition fee régime in Wales to the National Assembly for Wales. The Assembly will take responsibility for student support and fees from academic year 2006/07 onwards.

The Welsh Assembly Government now intends to provide guidance to the Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) on the procedures that will need to accompany the introduction of flexible tuition fees in Wales. This follows the decision of the National Assembly for Wales, made on 22 June 2005, that Welsh higher education institutions (HEIs) should be allowed to charge flexible tuition fees of up to £3000[1] per annum from the 2007/08 academic year for full time undergraduate and PGCE students. The ability of institutions to charge flexible fees will be dependent upon their securing approval from HEFCW for institutional fee plans that will set out their proposals for utilising the additional income which these fees will generate.

The statutory framework governing the introduction of flexible tuition fees was set out in the Higher Education Act 2004. The Act contains provisions which relate to the need for the introduction of flexible fees to be accompanied by a range of institutional measures which have the aim of promoting equality of opportunity and promoting

[1] We expect this figure will need to be up-rated in accordance with the HMT GDP deflator

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn • Tel: 029 2082 5445
Ffacs • Fax: 029 2082 5823
Ebost • Email: john.howells@wales.gsi.gov.uk

higher education in Wales more generally. This guidance describes how the Assembly Government intends that these requirements should be implemented. In the first instance, the Assembly Government does not propose to legislate so as to require HEIs to comply with the machinery surrounding the introduction of flexible fees. The Assembly Government will, however, keep the issue of whether it should legislate to achieve its policy goals in this area under review. It will also keep under review any future need to revise the guidance to reflect legislative changes affecting the provision of higher education in Wales or other major policy changes.

I am writing to seek your views on the proposed Fee Plan Guidance. The period of consultation will last for 6 weeks and your response must be submitted by 27 March 2006. You should send your comments to:

Miss Hannah Jones
Higher Education Division
Room 3-078
Welsh Assembly Government
Cathays Park
CARDIFF
CF10 3NQ

Alternatively, your comments may be sent by e-mail to:
JonesHannah@wales.gsi.gov.uk

Please note that responses may be made available for public inspection in the Assembly library. The Welsh Assembly Government will assume that you do not object to this approach unless notified otherwise. If you reply by e-mail, any confidentiality clause automatically generated by your provider will not be taken into account unless you specifically request confidentiality. Consultation responses may also be included in a statistical summary and a summary of responses may subsequently be published on the Assembly website.

Yours sincerely

**JOHN HOWELLS**
HIGHER EDUCATION DIVISION

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

13 Chwefror 2006

Annwyl Gyfaill

**Y System Ffioedd Dysgu Amrywiadwy yng Nghymru: Ymgynghoriad ar y Canllawiau ar Gynlluniau Ffioedd**

Cafodd y Mesur Addysg Uwch Gydsyniad Brenhinol yng Ngorffennaf 2004. Yn sgil hyn, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gynnal addysg uwch a phellach a'r system ffioedd dysgu yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Cynulliad yn cymryd y cyfrifoldeb am y cymorth i fyfyrwyr a'r ffioedd o flwyddyn academaidd 2006/07 ymlaen.

Mae Llywodraeth y Cynulliad bellach yn bwriadu darparu canllawiau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar y gweithdrefnau y bydd angen eu dilyn pan gaiff ffioedd dysgu hyblyg eu cyflwyno yng Nghymru. Mae'n dilyn penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai fod gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yr hawl i godi ffioedd dysgu hyblyg o hyd at £3000[1] y flwyddyn o 2007/08 ar gyfer israddedigion a myfyrwyr TAR llawnamser. Bydd sefydliadau'n cael codi ffioedd hyblyg ar yr amod eu bod yn sicrhau cymeradwyaeth CCAUC ar gyfer eu cynlluniau ffioedd a fydd yn nodi eu cynigion ar gyfer defnyddio'r incwm ychwanegol a ddaw o'r ffioedd.

Amlinellwyd y fframwaith statudol ar gyfer cyflwyno ffioedd dysgu hyblyg yn Neddf Addysg Uwch 2004. Mae'r Ddeddf yn sôn bod angen cyflwyno amrywiaeth o fesurau sefydliadol ochr yn ochr â'r ffioedd hyblyg, er mwyn hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio sut y dylai'r

[1] Disgwylir y bydd angen cynyddu'r ffigur hwn yn unol â datchwyddwr CMC y Trysorlys.

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel: 029 2082 5445
Ffacs • Fax: 029 2082 5823
Ebost • Email: john.howells@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

gofynion hyn gael eu bodloni. Yn y lle cyntaf, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu deddfu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch gydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ffioedd hyblyg. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cadw golwg ar y sefyllfa i weld a ddylai ddeddfu ai peidio er mwyn cyrraedd ei hamcanion polisi yn y maes hwn. Bydd hefyd yn diwygio'r canllawiau hyn, os bydd angen, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau polisi eraill sy'n effeithio ar addysg uwch yng Nghymru.


Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich sylwadau ar y canllawiau arfaethedig ar gynlluniau ffioedd. Bydd yr ymgynghoriad yn para 6 wythnos. Felly, rhaid i chi gyflwyno'ch sylwadau erbyn 27 Mawrth 2006. Dylech anfon eich sylwadau at:

Miss Hannah Jones
Yr Is-adran Addysg Uwch
Ystafell 3-078
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Fel arall, gallwch anfon eich sylwadau trwy'r e-bost at:
JonesHannah@wales.gsi.gov.uk

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion yn cael eu rhoi yn llyfrgell y Cynulliad i'r cyhoedd eu gweld. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn tybio nad ydych yn gwrthwynebu bod yn agored fel hyn oni bai eich bod yn nodi fel arall. Os ydych yn ymateb drwy e-bost, ni fyddwn yn ystyried unrhyw gymal preifatrwydd y mae eich darparwr yn ei atodi'n awtomatig at eich e-bost. Rhaid i chi nodi'n benodol yn eich e-bost eich bod yn dymuno bod yn anhysbys. Efallai y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn cael eu cynnwys mewn crynodeb ystadegol, ac efallai y bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi wedi hynny ar wefan y Cynulliad.

Yn gywir



**JOHN HOWELLS**
Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch